Beth yw dementia blaenarleisiol?

Alzheimer's Research UK

Make breakthroughs possible

Mae gwybodaeth yn y llyfryn hwn ar gyfer unrhyw un sydd am wybod mwy am ddementia blaenarleisiol (FTD). Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n byw gyda FTD, eu gofalwyr, teuluoedd a ffrindiau. Nod y llyfryn yw rhoi cyflwyniad i FTD. Mae'n rhoi trosolwg o'r achosion, symptomau a thriniaethau.

Cynnwys

Cyflwyniad	03
Beth yw dementia blaenarleisiol?	04
Symptomau	07
Diagnosis	10
Triniaethau	12
Ffactorau risg	15
Cefnogaeth	16
Ymchwil	19

Nid yw'r wybodaeth yma yn disodli unrhyw gyngor y gall meddygon, fferyllwyr neu nyrsys ei rhoi i chi, ond mae'n rhoi peth gwybodaeth gefndirol a fydd, gobeithio, o gymorth i chi.

Diweddarwyd y llyfryn ym mis Ionawr 2020 ac fe'i hadolygir ym mis Ionawr 2022. Cofiwch gysylltu â ni os hoffech gael fersiwn gyda chyfeiriadau neu mewn fformat gwahanol.

Beth yw dementia blaenarleisiol?

Nid clefyd ynddo'i hun yw dementia; gair ydyw a ddefnyddir i ddisgrifio grŵp o symptomau. Gall y rhain gynnwys newidiadau mewn personoliaeth, ymddygiad neu dymer, colli cof, dryswch ac anhawster gyda thasgau beunyddiol.

Achosir dementia gan wahanol glefydau ar yr ymennydd. Bydd y symptomau sydd gan ryuwn yn dibynnu ar pa glefyd sy'n effeithio ar ei ymennydd.

Mae dementia blaenarleisiol (FTD) yn ffurf brinach o ddementia. Tybir ei fod yn cyfrif am lai nac un o bob 20 o'r holl achosion o ddementia. Mae fel rheol yn effeithio ar bobl rhwng 45 a 64 oed. Fodd bynnag, gall FTD effeithio ar bobl iau a hŷn na hyn.

Clefyd Pick oedd yr enw gwreiddiol arno, ar ôl y gwyddonydd a arsylwodd ar y symptomau gyntaf. Wyddom bellach fod FTD wedi ei ffurfio o sawl gwahanol glefyd. Gall eich meddyg gyfeirio at y hyn yn ôl eu henwau penodol neu fe all eu disgrifio oll fel 'dementia blaenarleisiol', fel y gwnawn ni yn y llyfryn hwn.

Mae dementia blaenarleisiol y cynnwys y clefydau isod:

FTD sy'n effeithio ar ymddygiad (bvFTD)

Dementia semantig (mae'r gair semantig yn golygu 'ystyr iaith')

Affasia anhawster ynganu cynyddol - anhwylder iaith yw affasia lle caiff pobl broblemau wrth siarad ac ysgrifennu

FTD cysylltiedig â chlefyd niwronau echddygol

Mae dementia semantig ac affasia anhawster ynganu cynyddol yn fathau o affasia cynyddol sylfaenol. Gallwch ddysgu rhagor am y cyflyrau hyn yn ein llyfryn '**What is primary progressive aphasia?**'.

FTD yw'r ail achos mwyaf cyffredin o ddementia mewn pobl dan

65 oed

Mae FTD fel arfer yn effeithio ar bobl rhwng

45-64 oed

Achosir FTD gan ddifrod i gelloedd yn rhannau'r ymenydd a elwir yn llabedau blaen ac arleisiol. Y mannau hyn sydd yn rheoli ein personoliaeth, emosiynau ac ymddygiad, yn ogystal â'n lleferydd a'n dealltwriaeth o iaith.

Mewn FTD, mae proteinau penodol yn cronni yn y rhannau hyn o'r ymenydd. Y tri phrotein sy'n rhan o FTD yw tau, TDP-43 a FUS.

Mae'r proteinau hyn yn clystyru ynghyd ac yn difrodi celloedd yr ymennydd, gan beri iddynt farw. Nid ydym eto'n llawn ddeall y rheswm eu bod yn cronni, ac y mae ymchwil yn parhau.

Symptomau

Mae'r symptomau cynnar yn amrywio o un unigolyn i'r llall ac yn dibynnu pa ran o'r ymennydd yr effeithir arno.

Mewn dementia blaenarleisiol sy'n effeithio ar ymddygiad, efallai y bydd yr effaith fwyaf ar y rhannau o'r llabed flaen sydd yn rheoli ymddygiad cymdeithasol. Mewn dementia semantig, y rhannau o labed yr arlais sy'n cynnal dealltwriaeth o iaith a gwybodaeth ffeithiol sy'n cael eu heffeithio fwyaf. Mewn affasia anhawster ynganu cynyddol, y rhannau o'r llabed flaen sy'n rheoli lleferydd sy'n dioddef yr effaith fwyaf.

Mae symptomau'n gwaethygu dros amser, gan arwain yn raddol at broblemau ehangach gyda gweithredu o ddydd i ddydd. Gall rhai pobl ddatblygu problemau echddygol tebyg i'r rhai a welir yng nghlefyd Parkinson. Dros amser, gall pobl gyda FTD ei chael yn anos llyncu, bwyta, cyfathrebu a symud, a gallant gael anhawster rheoli eu pledren neu goluddyn. Bydd arnynt angen mwy o gefnogaeth i ofalu amdanynt eu hunain.

Gall cyflymder y newid amrywio'n helaeth. Rhyw wyth mlynedd yw'r amser goroesi ar gyfartaledd wedi i symptomau gychwyn, ond y mae rhai pobl yn byw gyda'r cyflwr am lawer hwy na hyn.

Gall symptomau gynnwys:

Newidiadau mewn emosiynau

Gall hyn gynnwys newid yn y modd mae pobl yn mynegi eu teimladau tuag at eraill neu ddiffyg dealltwriaeth o deimladau pobl eraill.

Diffyg diddordeb

Gall pobl fynd yn fewnblyg neu golli diddordeb mewn gofalu amdanynt eu hunain, megis methu â chynnal eu lefel normal o hylendid personol.

Ymddygiad amhriodol

Gall hyn gynnwys gwneud jôcs amhriodol neu arddangos diffyg tact. Gall hiwmor neu ymddygiad rhywiol newid. Gall rhai pobl droi'n fyrbwyll neu bydd eu sylw'n crwydro'n hawdd.

Obsesiynau

Gall pobl ddatblygu credoau, diddordebau neu obsesiynau anarferol.

Deiet

Newidiadau mewn dewis o fwyd megis bwyta mwy o bethau melys, gor-fwyta neu or-yfed.

Ymwybyddiaeth

Efallai nad yw pobl yn sylweddoli bod unrhyw newid yn eu personoliaeth neu ymddygiad.

Gwneud penderfyniadau

Anhawster wrth wneud cynlluniau a phenderfyniadau syml.

Iaith

Dirywiad mewn galluoedd iaith. Gall hyn gynnwys anhawster yngan geiriau neu eu deall. Gall pobl ailadrodd geiriau ac ymadroddion cyffredin, neu anghofio ystyr geiriau.

Cof

Yn y cyfnodau cynnar, efallai na fydd llawer o effaith ar gof o ddydd i ddydd, ond gallai problemau gyda sylw a chanolbwyntio roi'r argraff fod problemau gyda'r cof.

Adnabod

Anhawster adnabod pobl neu wybod beth yw pwrpas gwrthrychau.

Problemau symud

Mae rhyw un o bob wyth o bobl gyda FTD sy'n effeithio ar ymddygiad hefyd yn datblygu problemau symud sy'n gysylltiedig â chlefyd niwronau echddygol. Gall hyn gynnwys cyhyrau stiff neu blyciog, gwendid yn y cyhyrau ac anhawster llyncu.

Diagnosis

Mae'n bwysig cael y diagnosis cywir er mwyn rhoi'r driniaeth a'r help iawn. Os ydych yn poeni am eich iechyd neu iechyd rhywun arall, dylech siarad â'ch meddyg teulu.

Os yw eich meddyg teulu yn amau dementia, efallai y cewch eich cyfeirio at glinig cof neu glinig arbenigol arall.

Cewch eich holi am eich symptomau a'ch hanes meddygol ac efallai y cewch archwiliad corfforol a phrofion ar y cof a'r meddwl.

Efallai y cewch hefyd eich anfon am brofion megis sganiau ar yr ymennydd a phrofion gwaed.

Gyda'i gilydd bydd y profion hyn yn helpu i adnabod achosion tebygol eich symptomau.

Gall sganiau ar yr ymennydd megis MRI (delweddu cyseinedd magnetig) helpu i roi diagnosis o ddementia blaenarleisiol. Maent yn caniatáu i'r meddyg chwilio am newidiadau yn llabedau blaen a llabedau arlais yr ymennydd, sydd fel arfer yn digwydd gyda'r math hwn o ddementia.

Mae FTD yn ffurf anarferol o ddementia, nas gwelir yn aml gan feddygon. Gall gymryd yn hwy nac arfer i gael y diagnosis cywir.

Triniaethau

Ar hyn o bryd, nid oes cyffuriau i drin FTD, felly mae'r canolbwynt ar hyn o bryd ar helpu pobl â'r clefyd a'u gofalwyr i reoli symptomau mewn bywyd beunyddiol.

Gall y gefnogaeth hon ddod o amrywiaeth o lefydd, gan gynnwys y GIG a gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal â grwpiau cefnogi arbenigol a grwpiau neu fudiadau lleol yn eich cymuned.

Gall cefnogaeth i reoli symptomau, yn ogystal â rhannu profiadau gydag eraill mewn sefyllfa gyffelyb, fod yn help gwirioneddol. Gall therapyddion galwedigaethol hefyd eich helpu i gynnal eich annibyniaeth cyhyd ag y bo modd.

Efallai y bydd angen i symptomau corfforol fel problemau llyncu neu symud gael eu rheoli'n ofalus. Efallai y cynigir therapi lleferydd neu ffisiotherapi i helpu gyda'r symptomau hyn.

Gall therapyddion lleferydd hefyd roi cyngor am dechnegau cyfathrebu i bobl â phroblemau iaith. Gall rhai pobl gael budd o ddefnyddio dulliau cyfathrebu amgen, gan gynnwys apiau i ffonau clyfar a llechi neu bethau mwy syml fel llyfrau lluniau.

Er mai nifer fechan o driniaethau trwy gyffuriau sydd ar gael, gall grŵp o feddyginiaethau gwrthiselder o'r enw SSRI weithiau helpu i reoli symptomau ymddygiad mewn pobl â FTD.

Os yw rhywun â FTD wedi'i gynhyrfu'n arw neu'n ymosodol iawn, gall meddyg i ddechrau asesu ei iechyd a'i amgylchedd yn gyffredinol. Gall hyn helpu i ganfod unrhyw bethau sy'n achosi neu'n arwain at y symptomau hyn. Efallai y gellir awgrymu triniaethau heb gynnwys cyffuriau megis aromatherapi neu therapi cerdd hefyd. Mae dulliau o'r fath yn ystyried buddiannau'r unigolyn ei hun a gallant helpu i leihau ymosodedd a chynnwrf.

Mewn achosion prin, gellir defnyddio cyffuriau gwrthseicotig i liniaru symptomau difrifol. Nid yw'r cyffuriau hyn yn addas i bawb, felly bydd eich meddyg yn ystyried yn ofalus beth sy'n briodol. Gallant gael sgil-effeithiau difrifol, a dylid monitro eu defnydd yn ofalus.

Am wybodaeth fanylach ynghylch yr holl driniaethau sydd ar gael, holwch am ein llyfryn '**Treatments for dementia**'.

Ffactorau risg

Mae gan rai pobl gyda FTD hanes teuluol o ddementia a gall y cyflwr gael ei etifeddu yn rhai o'r teuluoedd hyn.

Mewn FTD sy'n effeithio ar ymddygiad, gall un o bob dau neu dri sydd â'r clefyd fod â hanes teuluol. Tybir fod y ffigwr hwn yn is o lawer ar gyfer ffurfiau eraill o FTD.

Yn gyffredinol, tybir bod un o bob deg achos o FTD wedi ei achosi gan ennyn diffygiol sy'n cael ei drosglwyddo mewn teuluoedd - gelwir hyn hefyd yn ddementia blaenarleisiol teuluol.

Mae gwyddonwyr wedi darganfod sawl gennyn diffygiol a all achosi ffurfiau etifeddol o FTD, gan gynnwys tau, progranwlin a C9ORF72. Os yw eich meddyg yn amau bod cyswllt teuluol cryf, efallai y cynigir prawf genetig i chi a efallai y cynigir cwnsela genetig i'ch perthnasau agosaf. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni i gael ein taflen '**Genes and dementia**'.

Mewn achosion o FTD lle nad oes hanes teuluol, nid ydym eto yn llawn ddeall y ffactorau risg, ac y mae ymchwil ar y gweill i ddarganfod mwy.

Cefnogaeth

Gall byw gyda dementia blaenarleisiol fod yn anodd. Fe all pobl iau sydd wedi'u heffeithio gan y clefyd fod yn gweithio, gyda chyfrifoldebau teuluol ac ariannol.

Yn ogystal â chefnogi'r unigolyn ag FTD, mae'n bwysig fod gofalwyr hefyd yn gallu cael cefnogaeth ymarferol ac emosiynol iddynt hwy eu hunain.

Rare Dementia Support yn rhedeg tri grŵp cefnogi cenedlaethol sy'n darparu cefnogaeth a gwybodaeth i bobl â FTD, eu teuluoedd a'u gofalwyr: y **Frontotemporal Dementia Support Group**, y **Primary Progressive Aphasia Support Group** a'r **Familial Frontotemporal Dementia Support Group**.

Mae manylion cyswllt rhanbarthol ar gael ar-lein ar **www.raredementiasupport.org** neu trwy ffonio **020 3325 0828**. Medrwch gael gwybodaeth ar-lein am FTD hefyd ar wefan siarad ar **www.ftdtalk.org**

Mae mudiadau cefnogi eraill all gynnig help a chyngor am ddementia. Am fwy o wybodaeth, ewch at ein gwefan ar **www.alzheimersresearchuk.org** neu holwch ni am ein llyfryn '**Support for people affected by dementia: organisations that can help**'. Gallwch hefyd siarad â'ch meddyg neu'ch nyrs am gyngor.

Anfonwch fwy o wybodaeth ataf

I gael wybodaeth am ddim, llenwch y slip hon a'i rhoi mewn blwch post. Neu ffoniwch ni ar **0300 111 5555**.

Hoffwn dderbyn

- All about dementia (Saesneg; SCIHIAAD) ☐
- Treatments for dementia (Saesneg; SCIHITMT) ☐
- Genes and dementia (Saesneg; SCIHIGENE) ☐
- Support for people affected by dementia: organisations that can help (Saesneg; SCIHICARE) ☐
- 'Think' cylchlythyr (Saesneg; SMTTHINK) ☐

Enw

Cyfeiriad

E-bost

Fe hoffem i chi fod y cyntaf i wybod am yr ymchwil ddiweddaraf a sut mae eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth, yn ogystal â ffyrdd i chi ddod yn rhan o'n gwaith sy'n newid bywydau, a helpu i'w gyllido. Byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth yn ddiogel ac ni fyddwn ni fyth yn ei gwerthu na'i ffeirio gyda neb.

Cofiwch roi gwybod i ni sut y gallwn ni gysylltu â chi (ticiwch isod):

☐ **Post** ☐ **E-bost** ☐ **Teleffon** ☐ **Neges destun**

Gallwch newid y ffordd yr ydym yn siarad â chi ar unrhyw adeg, trwy alw **0300 111 5555** neu e-bostio **enquiries@alzheimersresearchuk.org**

Mae modd gweld ein Hysbysiad Preifatrwydd ar **www.alzheimersresearchuk.org/privacy-policy** ac y mae'n esbonio sut y byddwn ni'n defnyddio ac yn storio eich gwybodaeth.

Ymchwil

Mae Alzheimer's Research UK wedi cyllido gwerth dros

£27.3 miliwn

o ymchwil arloesol i'n helpu i ddeall mwy am FTD.

Mae ein hymchwil yn edrych ar y proteinau sydd yn cronni yn yr ymennydd mewn FTD a'r ffactorau risg o ran ei ddatblygu. Bydd y gwaith hwn yn helpu gwyddonwyr i ddeall FTD, rhoi diagnosis mwy manwl gywir ohono, a datblygu triniaethau newydd.

Gyda chefnogaeth ein gwyddonwyr a'n cefnogwyr ymroddedig, rydym yn herio'r ffordd mae pobl yn meddwl am ddementia, gan ddwyn ynghyd y bobl a'r mudiadau a all gyflymu cynnydd, a buddsoddi mewn ymchwil i wneud darganfyddiadau yn bosib.

I gael mwy o wybodaeth

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn ag ymchwil i ddementia neu os ydych eisiau cael mwy o wybodaeth ynglŷn â sut i fod ynrhan o'r ymchwil, cysylltwch â'n **Dementia Research Infoline** ar **0300 111 5 111** neu e-bostiwch **infoline@alzheimersresearchuk.org**

Mae'r Infoline yn agored rhwng 9.00-5.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae cost galwadau ar yr un gyfradd â galwadau cenedlaethol i rifau 01 neu 02 a dylid eu cynnwys mewn unrhyw becynnau gofal am ddim.

Alzheimer's Research UK
Make breakthroughs possible

Freepost RTYR-ZUUZ-AULL
Partridges
3 Eagle Avenue
Magnetic Park
Desborough
NN14 2WD

Ni yw'r brif elusen yn y DU sy'n ymchwilio i dementia ac yr ydym wedi ymrwymo i wneud darganfyddiadau a fydd yn newid bywydau o ran diagnosis, atal, triniaeth a gwella.

Rydym yn croesawu eich sylwadau i'n helpu i ddarparu'r wybodaeth orau i chi. Gallwch ddweud eich barn am y llyfryn hwn drwy gysylltu â ni. Mae'r manylion cysylltu isod.

Contact us
Alzheimer's Research UK
3 Riverside, Granta Park, Cambridge CB21 6AD

Supporter care
T: 0300 111 5555
E: enquiries@alzheimersresearchuk.org

Dementia Research Infoline
T: 0300 111 5 111
E: infoline@alzheimersresearchuk.org

www.alzheimersresearchuk.org

Alzheimer's Research UK

Make breakthroughs possible

Registered charity number 1077089 and SC042474

FTD-0120-0122